

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Craffu Gwasanaethu
<b>DYDDIAD</b>	17.03.16
<b>TEITL</b>	Cynnydd yn erbyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty i'r Cartref – Rhan 2
<b>PWRPAS</b>	Diweddaru'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau o'r cynnydd.
<b>AWDUR</b>	Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)  Peter Higson (Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)

## **1 Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad**

Diweddaru aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau o'r cynnydd yn erbyn prif argymhellion yr Ymchwiliad Craffu 'O'r Ysbyty i'r Cartref – Rhan 2'.

## **2 Cyflwyniad**

Cyflwynwyd adroddiad 'O'r Ysbyty i'r Cartref - Rhan 2' i'r Fforwm Sirol ar y 15.07.15 a oedd yn cynnwys 7 prif argymhelliad. Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau o'r cynnydd diweddaraaf sydd wedi ei gwneud yn erbyn yr argymhellion blaenorol, ac lle yn bosib yn ymateb i rai o'r sylwadau yn y 'Cyfweliadau Tracio'.

Lluniwyd yr adroddiad ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac mae'r sylwadau yn cael eu cynnig fesul argymhelliad.

## **3 Ystyriaethau Perthnasol**

Amherthnasol

## **4 Rhesymau dros argymell y Penderfyniad**

**Argymhelliad 1 - Cyfarch rhai o wendidau'r trefniadau trosglwyddo cleifion gan roi sylw lle bo angen i lunio Cynllun Gofal newydd neu i addasu'r Cynllun Gofal cyfredol yn fuan ar ôl i'r claf gyrraedd yr Ysbyty.**

Rydym yn falch o fod wedi derbyn adborth positif o'r Cyfweiliadau Tracio, ac yn gyffredinol credwn fod gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda yn y maes hwn - a hynny ar lefelau gweithredol a strategol. Fel rhan o'r ymgais i weithio'n integredig ar draws y maes Gofal ac Iechyd mae newid pwyslais cyffredinol wedi'i sefydlu bellach wrth asesu unigolion. Cytunir a'r egwyddor y dylai'r asesu gael ei wneud yn yr amgylchiadau gorau posib i'r unigolyn, ac mae hynny'n aml iawn yn eu cartrefi - sef wrth reswm yr amgylchiadau arferol mwyaf cyfarwydd â chyfforddus iddynt. Mae hon felly yn ymdrech amlwg i symud oddi wrth y ffordd draddodiadol flaenorol o asesu yn yr ysbyty.

Mae'r ffordd newydd o weithio sy'n cael ei dreialu yn ardal Eifionydd yn cynnig canlyniadau dechreuol positif wrth drosglwyddo cleifion. Mae dileu'r drefn paneli yn golygu fod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gynt ac yn fwy amserol i'r claf. Hyd yma nid oes tystiolaeth chwaith fod y dileu'r trefniant paneli hwn wedi golygu unrhyw gynnydd mewn gwariant. Mae'r ffordd newydd o weithio'n integredig a chysoni dogfennau ar gyfer asesiadau yn golygu ein bod yn dechrau gweld lleihad sylweddol yn y gwaith papur i staff ar y Ward yn Ysbyty Alltwen. Mae'r lleihad hwn yn golygu fod gan y staff fwy o amser i ofalu a chefnogi cleifion, tra ar yr un pryd yn hwyluso'r broses o drosglwyddo yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae'r ffordd newydd o weithio yn weithredol yn ardal Eifionydd yn unig, ac mae gwaith pellach i'w wneud dros y misoedd nesaf i sefydlu'r trefniadau e.e. ar y Ward. Mae trafodaethau allweddol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd er mwyn rhagweld sut bydd y strwythur integredig yn edrych yng Ngwynedd yn y dyfodol. Disgwylir felly y byddwn mewn sefyllfa i gadarnhau'r darlun hwn yn fuan, ac y bydd modd dechrau wedyn ar ddatblygu'r ffordd newydd o weithio mewn ardaloedd eraill.

Gwyddwn fod rhai problemau ymarferol o ran trosglwyddo cleifion mewn rhai ardaloedd o Wynedd megis Meirionnydd. Rydym yn ceisio ymateb i'r pryderon hyn ar y cyd, ac o safbwynt y Cyngor mae penodiadau wedi'i gwneud yn ddiweddar ac hefyd mae staff wedi cael ei symud yno dros dro er mwyn helpu'r sefyllfa. Fodd bynnag mae pryderon am rai o'r problemau hyn yn y tymor hwy - sefyllfa os am ei datrys fydd yn gofyn am barhau i gynllunio'n strategol rhwng y ddau awdurdod. Fel rhan o'r ymgais i wneud hynny comisiynwyd prosiect newydd dan y Cynllun Strategol gan y Cyngor Llawn ar y 03.03.16 a fydd yn ceisio ymateb i'r her o ran capasiti y gyfundrefn Gofal ac Iechyd yn ei chyfanrwydd. Mae'r pryderon sydd wedi ei amlygu yn ardal Meirionnydd wrth gwrs yn rhan o broblem ehangach - er enghraifft mae rhai ardaloedd ble mae rhwydweithiau lleol a theuluol yn fwy prin nac ardaloedd eraill o'r Sir. Law yn llaw a hyn mae'r diffyg cyfleoedd gwaith i'r ifanc yn golygu bod y bobl ifanc wedi gadael yr ardal ac y gall oherwydd hyn y boblogaeth fod yn hŷn na rhai

ardaloedd. Mae'r darparwr 'Hosbis yn y Cartref' hefyd wedi adnabod y diffyg gofawyr ym Meirionnydd ac, mewn ymateb i hyn, wedi ariannu mwy o ofalwyr yn benodol er mwyn cynnig cefnogaeth diwedd oes. Rydym yn y broses o recriwtio ar hyn o bryd a'r bwriad yw sicrhau cydweithio agos rhwng oll o bartneriaid y maes yn lleol.

**Argymhelliad 2 - Cefnogi'r Trydydd Sector i gydlynu gwasanaethau ataliol a chefnogol arbenigol yn y gymuned a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i ddiwallu hyn ac i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen o wasanaethau'r trydydd sector.**

Rydym yn falch o adrodd, ar lefel strategol, fod cydweithio positif yn digwydd rhwng yr oll o'r partneriaid sy'n cael eu cynrychioli ar y Grŵp Cyswllt 3ydd Sector. Er nad oes newid sylweddol wedi bod yn y sefyllfa ers i'r argymhelliad uchod gael ei gynnig yng Ngorffennaf 2015, mae'r berthynas gyda'r 3ydd sector yn gyffredinol dda. Ar y cyd, rydym yn datblygu'r strategaeth er mwyn ymateb i ofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r gwaith sydd yn mynd rhagddo gyda Dewis Cymru a mapio gweithgareddau cymunedol yn ardal Eifionydd yn rhan o hyn. Yn ogystal, mae'r prosiect G1 Her Gofal yn y Cynllun Strategol yn ceisio adnabod cryfderau cymunedau ac ysgogi gweithredu cymunedol. Disgwylir medru llwyddo i wneud hyn wrth weithio gyda'r cymunedau, y 3ydd sector, a phartneriaid allweddol eraill.

Dylid nodi fod y Cyngor wedi cymeradwyo torri cyfanswm o £100,000 yn y gyllideb sy'n cael ei ddyrannu i'r 3ydd Sector, gan sicrhau hefyd arbedion effeithlonrwydd o £65,000. Mae hyn wrth gwrs yn amlygu'r her sydd yn wynebu'r sector, ac yn tanlinellu'r angen i gydweithio mor agos â phosib ynghyd a rhannu adnoddau er lles trigolion Gwynedd.

Yn benodol eto o ran sefydlu un pwynt cyswllt, fel sydd wedi ei adrodd yn barod gyferbyn ac Argymhelliad 1, mae'r gwaith yn cael ei ddatblygu yn ardal Eifionydd ar hyn o bryd ac fe fyddwn wedyn symud ymlaen i weithredu yn yr ardaloedd eraill yn dilyn sefydlu'r ffordd newydd o weithio. Y Tîm Integredig sydd yn weithredol yn ardal Eifionydd fydd yr 'un pwynt cyswllt' ar gyfer trigolion Eifionydd, ac fe fydd y model hwn wedyn yn cael ei ddyblygu ar draws y sir. Mae'r pwyslais yn parhau ar roi'r defnyddwyr gwasanaeth yn y canol ac mae hynny yn greiddiol wrth sefydlu'r 'un pwynt cyswllt'. Fel rhan eto o dreialu'r ffordd newydd o weithio yn ardal Eifionydd mae'r trydydd sector, ac yn neilltuol swyddog Gofal a Thrwsio, yn rhan bellach o'r fîm sydd wedi ei leoli yn Ysbyty Alltwn.

**Argymhelliad 3 - Asesu llwyddiant y Prosiect Gofal Canolradd a sicrhau dilyniant yn dilyn terfynu'r grant i ddelio gydag unrhyw ddiffygion sy'n parhau o safbwynt cynnal gwasanaeth y timau rhyddhau ysbytai, a thimau cymunedol yn llawn dros y penwythnosau.**

Rydym yn falch o adrodd fod y llywodraeth wedi penderfynu parhau i ariannu prosiectau mwyaf llwyddiannus y 'Prosiect Gofal Canolraddol'. Mae'r ffordd newydd o weithio yn Eifionydd yn parhau felly i gael ei gyllido yn ogystal â'r gwaith o wella ymhellach y timau rhyddhau o'r ysbyty, ynghyd hefyd a sut i ddarparu cefnogaeth dros y penwythnosau (gweithio saith diwrnod). Er mwyn cyfarch anghenion ein trigolion oll mae angen i'r system lechyd a Gofal mewn gwirionedd allu cynnig gwasanaeth llawn trwy gydol yr wythnos, ond yn anffodus nid yw'r trefniadau hanesyddol cyfredol yn galluogi hynny ar hyn o bryd. Ond gyda'r ffocws cynyddol ar sicrhau fod y cwsmer yn ganolog i bopeth a wnawn, gellir gweld fod yr egwyddor hon yn rhoi pwysau cynyddol arnom i newid y trefniadau hanesyddol blaenorol. Gwaetha'r modd y realiti yw nad yw'n rhwydd bob amser gwneud newidiadau o'r fath. Ond, serch hynny, rydym yn parhau'n grediniol y bydd modd llwyddo yn y pendraw i sicrhau trefniadau addas i'r dyfodol a fydd yn ein galluogi i gadw'r ffocws ar anghenion ein trigolion gydol yr amser. Y nod yw gallu cynnig gwasanaeth cyson llawn gydol yr wythnos, a fyddai'n golygu na fyddai raid wedyn poeni am unrhyw bwysau gwaith anghyfartal ar rai diwrnodau o'r wythnos fwy na'i gilydd. Mae'r newid yma heb os yn un sylweddol a byddwn yn sicrhau fod trefniadau addas i gefnogi'r gweithlu gydol y daith.

O ran y sylwadau a gafwyd yn y Cyfweiliadau Tracio ynglŷn â dogfennau, credwn y bydd y ffordd newydd o weithio sydd yn cael ei ddatblygu ar draws gwasanaethau Oedolion a'r Bwrdd lechyd yn llwyddo i herio biwrocratiaeth di-angen, ac mewn nifer o achosion y mae eisoes wedi arwain at gysoni ffurflenni. Yn ogystal, byddwn wrth gwrs yn falch o dderbyn unrhyw awgrymiadau pellach ynghylch sut y gellir osgoi dyblygu ymhellach, neu weld os oes modd cyflwyno a derbyn gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol mwy effeithiol eto. Mae'n werth nodi bod y Cyngor a'r Bwrdd lechyd yn torri tir newydd gyda'r agwedd hyn, ac ar brydiau yn cynnig datrysiadau gwahanol i'r drefn ranbarthol drwy ddileu ffurflenni diangen.

Rydym yn fach o'r sylwadau positif ynglŷn â 'Step up / Step Down, ac yn dilyn trafodaethau rydym falch hefyd o fedru adrodd nad yw'r rhwystr blaenorol o Feddygon Teulu heb fod yn rhydd i gefnogi cleifion y tu allan i'w hardaloedd practis bellach yn broblem.

#### **Argymhelliad 4 - Cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno trefniant gyda Thîm Rhyddhau Ysbyty Bronglais i ryddhau cleifion i Dde Meirionnydd.**

Mae gan y Bwrdd Iechyd, a'r Cyfarwyddwr Ardal Ffion Jonhstone yn benodol, gyswllt cryf gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Yn ogystal a hyn mae Morwena Edwards y Cyfarwyddwr Corfforaethol, a'r aelod Cabinet Gareth Roberts, yn mynychu cyfarfodydd 'Bwrdd Cydweithio Iechyd Canolbarth Cymru', corff sydd hefyd yn cael ei fynychu gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Bwrdd Iechyd.

Rydym yn falch o adrodd fod y berthynas yn un cadarnhaol ond yn nodi hefyd fod sylwadau'r Cyfweiliadau Tracio yn awgrymu y gellid parhau i'w wella eto.

#### **Argymhelliad 5 - Dellir bod gwaith yn mynd rhagddo i wella sefyllfa prinder meddygon a nyrsys a bod angen datblygu a chyfathrebu'r cynlluniau'n glir ac ar frys gan roi sylw arbennig i'r sefyllfa argyfyngus yn Nwyfor a Meirionnydd.**

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn cydweithio er mwyn ceisio ymateb i'r pryder hwn. Fel rhan o gynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a trwy'r broses comisiynu dysgu, mae cais penodol wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru er mwyn hyfforddi 280 o nyrsys ychwanegol hyd at 2019. Yn ogystal a hyn mae Morwena Edwards, fel y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ar ran partneriaeth Rhanbarth y Gogledd, wedi ysgrifennu at Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant a Theuluoedd, yn mynegi gofid am y sefyllfa gyfredol. Nid oes ymateb ffurfiol wedi ei dderbyn gan Albert Heaney hyd yma.

Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor, a'r holl bartneriaid perthnasol, yn parhau i gydweithio'n agos er mwyn ymateb i'r her gyfredol. Ond tra yn cytuno gydag argymhelliad y Pwyllgor dylid hefyd amlygu fod ffyrdd eraill o ddiwallu anghenion, ac felly ni ddylid dibynnu'n gyfan gwbl ar gefnogaeth draddodiadol. Mae bosib defnyddio grwpiau proffesiynol eraill i ddiwallu anghenion unigolion ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn arian 'Strategaeth Gofal Cychwynnol' i ystyried y posibilïadau o ddatblygu timau amlddisgyblaethol. Yn benodol felly nyrsys arbenigol, fferyllwyr, therapyddion, awdiolegwyr a fyddai'n arbenigo mewn rheolaeth o gyflyrau cronig, gofal yn y gymuned a'r defnydd o dechnoleg i hwyluso cadw'r claf yn eu cartref.

Yn benodol o ran sylwadau, tynnwyd sylw yn y Cyfweiliadau Tracio at y niferodd o swyddi gwag ar draws y gogledd. Noder ar hyn o bryd, yn y gogledd orllewin, bod 7 swydd nyrsio gofrestredig yn wag a'r gweddill ynghlwm a'r broses hysbysebu. Yn plethu wrth gwrs a'r sylwadau eisoes yn yr adroddiad hwn, gellir adrodd ei fod wedi bod yn anodd penodi nyrsys yn ardal Tywyn. Er enghraifft

mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysebu pedair gwaith yn allanol ac eto i dderbyn unrhyw ymgeisydd.

O ran y tymor hwy, gwyddoch fod darn o waith wedi ei gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor, drwy drefniadau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Môn a Gwynedd) i edrych ar opsiynau o ran modelau gofal a iechyd gwahanol y gellid eu hystyried i'r dyfodol. Mae gan y Cyngor nifer o gartrefi preswyl mewnol, a bwriad y gwaith sydd wedi ei gomisiynu yw adnabod opsiynau sydd yn agored i'r Cyngor o ran y defnydd mwyaf addas i'r gwelyau yn y cartrefi hyn, er mwyn cryfhau y ddarpariaeth ar lefel lleol ac mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth yn is. Bydd y gwaith hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o ran cynnydd yn ogystal ac i'r cyrff unigol.

Ymhellach at hyn y mae prosiect newydd hefyd wedi ei gomisiynu gan y Cyngor Llawn ar y 03.03.16 er mwyn ceisio ymateb i'r problemau cyfredol o ran darparu gofal ac iechyd i bobl hyn yng Ngwynedd. Trwy gydlynnu'r prosiect hwn eto gyda'r Bwrdd Iechyd byddwn yn ceisio sicrhau fod gennym y gyfundrefn addas yn ei lle ar draws y maes hwn i'r dyfodol.

### **Argymhelliad 6 - Adolygu'r Protocol Rhyddhau gan ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys y cleifion a'r cyhoedd yn unol â Pholisïau a Chynlluniau Iaith Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.**

Mae'r Protocol Ryddhau bellach wedi cael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd.

### **Argymhelliad 7 - Asesu llwyddiant y gwaith sy'n mynd rhagddo ar waith Lean/Vanguard yn Ysbyty Alltwen i gyfarch y trefniadau biwrocraataidd presennol er mwyn rhyddhau amser staff i ddelio gyda'u prif ddyletswyddau o ddarparu gofal a nyrsio.**

Mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn cynnal ymchwiliad penodol i'r gwaith hwn yn ardal Eifionydd. Un o brif nodau y gwaith yw herio trefniadau biwrocraataidd di-angen er mwyn rhyddhau amser staff, ac mae tystiolaeth sylweddol bellach fod modd cyflawni'r bwriad hwn. Fel sydd wedi'i nodi yn unol ag Argymhelliad 1 mae'r gwaith yn mynd rhagddo, a rhagwelwn y byddwn mewn sefyllfa yn fuan i fedru cadarnhau i ba ardal y bydd y ffordd newydd o weithio yn ehangu iddo nesaf. Dylid cadarnhau wrth gwrs bod ardal Eifionydd wedi ei ddewis fel ardal ar gyfer dechrau'r ffordd newydd o weithio a bod Ysbyty Alltwen yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad i'r Tîm Integredig - nid oes rheidrwydd y bydd Timau mewn ardaloedd eraill wedi eu lleoli mewn Ysbytai Cymunedol.

Rydym yn gweld buddion yn ansawdd y gofal a roddir trwy fod yn gweithio'n integredig. Mae sylwadau un defnyddiwr gwasanaeth, sy'n 98 mlwydd, efallai yn crynhoi ac yn mynegi'r manteision yn benigamp:

*"Mae Gwasanaethau'r Sir heb ei ail faswn i'n ddweud a dim seboni ydi hyn, dwi'n dweud y gwir. Dwi'n gwybod pa mor bwysig ydi'r cyswllt unigol i gadw pobl yn hyderus i gario ymlaen i fyw eu bywydau fel y mae nhw eisiau byw. Ac os na fedran nhw wneud, bod yna rywun yno i roi ychydig o gefn a chynghor - yn hytrach na gorfod mynd o un i'r llall, a ddim yn gwybod yn union pwy ydi pwy a pwy sy'n gyfrifol am be".*

Sgil effaith ymarferol o fod yn canolbwyntio ar y gofal gorau posib i'r defnyddiwr, gan geisio cyflawni'r hyn sydd wirioneddol yn cyfri, yw ein bod yn awr yn dechrau gweld lleihad yn y patrymau gofal traddodiadol a gomisiynir yn ardal Eifionydd e.e. Gofal Cartref.

Yn benodol o ran y sylwadau ynglŷn ag iaith yn y 'Cyfweliadau Tracio', dylid nodi tra bod polisiâu iaith y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn wahanol, mae'r ddau sefydliad yn arddel egwyddorion 'Mwy na Geiriau', sef Fframwaith Strategol y Llywodraeth. O ran y Bwrdd Iechyd, ac er yn ddibynnol ar drafferthion recriwtio, mae penodi gweithwyr sy'n ddwyieithog yn cael ei ystyried yn ddymunol.

Teg yw nodi fod y gefnogaeth arbenigol a gafwyd gan ymgynghorwyr allanol wedi bod yn greiddiol i lwyddiant y gwaith hyd yma. Fodd bynnag, ystyriwn y bydd y gwaith o ddatblygu capasiti arbenigol mewnol yn golygu, gydag amser, y bydd llai o ddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol. Dylid cofio hefyd mai arian grant ar gyfer gwella gwasanaethau ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu'r gefnogaeth allanol yn hytrach na chyllidebau craidd.

## **5 Camau nesaf ac amserlen**

I'w gadarnhau

## **6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth**

Amherthnasol